**Dyddiad:** **7 Mehefin 2000**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Is-ddeddfwriaeth – Diwygio Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu**

## Pwrpas

1. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno i gyflwyno Rheoliadau (copi yn amgaeëdig) o dan Rhan Un o Reol Sefydlog 22, er mwyn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983 a Rheoliadau Lleoliadau Maeth (Plant) 1991.

## Crynodeb

2. Bydd y Rheoliadau’n codi’r gwaharddiad diamod a oedd yn atal awdurdodau lleol rhag ystyried person sydd wedi’i gael yn euog neu ei rybuddio am drosedd o wir niwed corfforol a gyflawnwyd pan oedd o dan 18 oed, yn addas ar gyfer mabwysiadu neu faethu plentyn.

## Cefndir

3. Bwriad y Rheoliadau Amddiffyn rhag Troseddwyr oedd atal awdurdodau lleol rhag arfer eu disgresiwn a chaniatáu i’r bobl hynny sydd wedi eu cael yn euog neu eu rhybuddio am droseddau difrifol, fod yn rhieni maeth. Mae’r troseddau a gwmpasir gan y Rheoliadau yn cynnwys gwir niwed corfforol, unrhyw drosedd o niwed corfforol i blentyn neu berson ifanc, cyfathrach rywiol anghyfreithlon (a gyflawnwyd pan oedd y troseddwr dros 20 oed), ac ymosodiad anweddus. Caiff unrhyw berson sydd wedi’i gael yn euog neu ei rybuddio am droseddau fel hyn ei wahardd, hyd yn oed os mai trosedd unigryw pan yn ifanc ydoedd (er enghraifft, dedfryd euog neu rybudd am drosedd o wir niwed corfforol yn dilyn ymladd rhwng dwy ferch 14 oed).

4. Yn dilyn pryderon yr awdurdodau lleol ac eraill ynghylch llymder y rheoliadau, cychwynnodd yr Adran Iechyd (DH) adolygiad ohonynt chwe mis ar ôl eu gweithredu. Heriwyd y Rheoliadau yng ngweithrediadau’r Adolygiad Barnwrol yn 1998, a mynegodd yr Adran Iechyd ei bwriad i ddiwygio’r rheoliadau. Er bod yr Uchel Lys yn ategu’r rheoliadau, nid oedd yn anfeirniadol ac fe awgrymwyd y dylai unrhyw ddiwygio gynnwys ail-gyflwyno elfen o ddisgresiwn.

5. Yn Nhachwedd 1998, cyhoeddodd yr Adran Iechyd bapur ymgynghorol yn disgrifio’r diwygiadau

arfaethedig. Yng Nghymru, cytunodd y Gweinidogion i ddosbarthu'r ddogfen ymgynghorol i'r rhai hynny â diddordeb. Ni chafwyd ymatebion penodol 'Cymreig', ac roedd yr ymatebion a gafwyd ar sail Cymru a Lloegr fel ei gilydd. Roeddent yn ffafrio ail-gyflwyno'r elfen o ddisgresiwn i awdurdodau lleol mewn perthynas â rhai neu'r holl gollfarnau a rhybuddion, tra'n cadw'r diogelwch uchaf posibl ar gyfer plant. Ar y cyfan, cafwyd sylwadau a oedd yn ffafrio adfer mwy o ddisgresiwn na'r hyn a gynigi wyd gan yr Adran Iechyd. Er hynny, penderfynodd y Gweinidogion mai'r unig ddiwygiad yr oeddent yn barod i'w wneud oedd adfer disgresiwn lleol i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r bobl hynny a gafwyd yn euog neu a rybuddiwyd am drosedd o wir niwed corfforol a gyflawnwyd pan oedd y troseddwr o dan 18 oed.

6. Daeth y Rheoliadau i rym yn Lloegr ar 31 Hydref 1999.

**Materion sy'n achosi pryder i'r Pwyllgor**

7. Mae'r rheoliadau hyn yn rhan o becyn pwysig i ddiogelu plant sy'n destun gofal. Fe fydd y diwygiad yn rheoleiddio'r hyn sy'n arferol ymhlith awdurdodau lleol erbyn hyn, ac yn effeithio ar rai achosion yn unig sy'n achosi problemau – cafwyd tua 20 i 30 o achosion ledled Cymru a Lloegr o ganlyniad i'r Rheoliadau sy'n bodoli eisoes.

8. Byddai gweithredu clir a chyson gan awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr yn ddymunol iawn, yn enwedig gan y bydd yn rhaid i'r Llysoedd ddelio ag achosion anodd yn y maes hwn o'r rheoliadau ac nid oes rheswm dros fabwysiadu ymdriniaeth wahanol yn Lloegr ac yng Nghymru. Er hynny, y Cynulliad sy'n penderfynu sut i weithredu yng Nghymru. Yr opsiynau a geir yw:

(i) gadael y Rheoliadau heb eu newid. Byddai hyn yn golygu'r lefel uchaf o ddiogelwch rhag troseddwyr yn mabwysiadu neu'n maethu plentyn. Er hynny, fe fyddai'n parhau i eithrio'r bobl a gafwyd yn euog neu eu rhybuddio am fân drosedd unigryw, yn enwedig ymladd ymhlith plant yn eu harddegau.

(ii) cyflwyno'r un diwygiad ag a geir yn Lloegr. Byddai hyn yn codi'r gwaharddiad diamod a oedd yn atal person sydd wedi'i gael yn euog neu wedi'i rybuddio am

drosedd o wir niwed corfforol a gyflawnwyd pan oedd o dan 18 oed, rhag cael ei ystyried i fabwysiadu neu faethu, ac yn caniatáu i awdurdodau lleol arfer eu disgresiwn.

(iii) codi ymhellach y lefel o ddisgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i gynnwys, er enghraifft, y rhai hynny sydd wedi'u cael yn euog neu eu rhybuddio am gyfathrach rywiol anghyfreithlon pan roedd y troseddwr o dan 24 oed, neu'r rhai hynny sydd wedi'u cael yn euog neu eu rhybuddio am ymosodiad anweddus pan yn ifanc.

9. Er hynny, bydd angen llunio achos cryf er mwyn cyfiawnhau ymdriniaeth wahanol yng Nghymru nac sydd yn Lloegr, yn enwedig o ystyried y posibilrwydd y gallai rheini mabwysiol/maeth a'r plant groesi'r ffin. Mae yna berygl hefyd y gallai llacio'r rheoliadau mwy nac yr argymhellir, olygu bod y rhai hynny a

gafwyd yn euog neu eu rhybuddio am droseddau difrifol a fydd efallai'n ail-droseddu, yn gallu bod yn rheini mabwysiol neu faeth.

10. Pa agwedd bynnag a gymerir, mae'n debygol y bydd yn rhaid i'r llysoedd barhau i ddelio â rhai o'r achosion mwyaf anodd, ac felly byddai defnydd clir a chyson o'r Rheoliadau yn ddymunol, os yn bosibl.

**Camau i'r Pwyllgor eu cymryd**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno bod y Rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno yng Nghymru.

**Swyddog Cyswllt**

12. Mike Burns, Yr Is-Adran Plant a Theuluoedd (estyniad 6535).